# Disgrifiad swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl swydd:** | Swyddog Polisi a Chyfathrebiadau |
| **Gradd:** | ADC Gradd D |
| **Oriau:** | 30 awr yr wythnos |
| **Atebolrwydd:** | Yn atebol i'r Rheolwr/wraig Polisi a Chyfathrebu |
| **Diben:** | I gefnogi cyfraniad Anabledd Dysgu Cymru i weithgaredd llunio polisi ac ymgyrchu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. I helpu i gyfleu ein gwaith a'n gwybodaeth berthnasol i'n rhanddeiliaid. |

## Cyfrifoldebau

### 1 Polisi a chyfathrebu

1.1 Ymchwilio a chynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd polisi allanol, yn enwedig mewn perthynas â phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr.

1.2 Dadansoddi mentrau polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a monitro eu heffaith.

1.3 Sicrhau bod gwybodaeth am ddatblygiadau polisi ac ymarfer a safbwynt Anabledd Dysgu Cymru yn cael ei chyfleu i aelodau a rhanddeiliaid eraill.

1.4 Cydlynu a chefnogi paratoad ymateb Anabledd Dysgu Cymru i ymgynghoriadau.

1.5 Paratoi adroddiadau addysgiadol a diddorol, erthyglau ar-lein, postiadau cyfryngau cymdeithasol a briffio ar faterion polisi.

1.6 Gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr i sicrhau bod eu barn yn dylanwadu ar baratoi ymgynghoriadau ac adroddiadau polisi.

1.7 Cefnogi'r Rheolwr/wraig Polisi a Chyfathrebu i redeg Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Anabledd Dysgu.

1.8 Cynnig gwybodaeth a chyngor i staff, aelodau a phartneriaid Anabledd Dysgu Cymru ar faterion polisi.

1.9 Cynorthwyo'r Rheolwr/wraig Polisi a Chyfathrebu i gynrychioli'r sefydliad drwy fynychu cyfarfodydd polisi perthnasol.

1.10 Diweddaru a chynnal y dudalen polisi ar y Gwefan Anabledd Dysgu Cymru a chynnal system ffeilio ar gyfer ymatebion polisi gyda chefnogaeth staff gweinyddol.

1.11 Cyfrannu at adroddiadau a diweddariadau rheolaidd gan gynnwys adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol i ymddiriedolwyr a'n hadroddiad blynyddol.

## 2 Ymgyrchu

2.1 Casglu a dadansoddi gwybodaeth a fydd yn llywio gweithgareddau ymgyrchu a lobïo gan y sefydliad, ei aelodau a'i bartneriaid.

2.2 Cynorthwyo Anabledd Dysgu Cymru i ddylanwadu ar bolisïau'r llywodraeth ac asiantaethau statudol drwy ddatblygu gweithgarwch ymgyrchu a lobïo effeithiol a chreadigol.

## 3 Arall

3.1 Cefnogi 1 neu fwy o bobl ifanc anabl i gymryd rhan yn Senedd Ieuenctid Cymru (gall hyn gynnwys mynychu cyfarfodydd ar benwythnosau).

3.1 Cynnal a datblygu perthynas gydag aelodau a rhanddeiliaid allweddol eraill.

3.2 Cyfrannu'n weithredol at waith y sefydliad.

3.3 Ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau i sicrhau bod darpariaeth gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol yn cael eu bodloni.

| | |
|---|---|
| Yn weithredol o | 18 Medi 2023 |
| Cymeradwywyd gan | Rheolwr/wraig Polisi a Chyfatrebiadau a Phrif Swyddog Gweithredol |
| Derbyniwyd gan | |